# DATBLYGU EICH BUSNES
## Medi – Tachwedd 2018

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Tu ôl i'r targed ■ Melyn: Bron â chyflawni'r targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

### Cyfanswm wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 01/10/2015

**9486** O FUSNESAU a **18787** O UNIGOLION


### Gwasanaeth Cynghori ■

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor arbenigol annibynnol, cyfrinachol ac wedi'i deilwra ar gyfer busnesau Ffermio a Choedwigaeth.


Y nod yw sicrhau bod busnesau yn:

- elwa o gefnogaeth busnes a/neu gyngor technegol, wedi'i deilwra i anghenion eich busnes
- lleihau costau trwy gynyddu effeithlonrwydd ar draws pob maes o'ch busnes
- meincnodi eich perfformiad ac yn gweithio tuag at gynnydd a thwf
- adnabod meysydd i wella a chanfod atebion i broblemau

Ceisiadau a gymeradwywyd




Ceisiadau a gymeradwywyd yn ôl Categori




### Cymorthfeydd un i un ■

Mae cymorthfeydd yn darparu cyngor un i un awr ac arweiniad gan ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

**Targed blynyddol = 60 Targed a gyflawnwyd = 47**

Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys:

- 1 CYMHORTHFA MARCHNATA DIGIDOL AC ARALLGYFEIRIO
- 2 GYMHORTHFA 'FY CPH'
- 4 CYMHORTHFA OLYNIAETH
- 9 CYMHORTHFA CYNLLUNIO
- 1 CYMHORTHFA CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
- 14 CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES DIGIDOL
- 5 CYMHORTHFA TG
- 1 CYMHORTHFA CYNLLUNIO DIGIDOL
- 2 GYMHORTHFA MENTRO
- 5 CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO

Mae nifer y cymorthfeydd a drefnwyd yn profi faint o gefnogaeth y mae'r prosiect yn ei ddarparu i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru. Er mwyn bodloni'r galw a welwyd yn ystod y cyfnod, cynigwyd cefnogaeth gan ein ymgynghorwyr i gwsmeriaid dros y ffôn. Mae'r sesiynau hyn yn hyblyg a gellir eu trefnu ar fyr rybudd, gan olygu nad oes angen teithio.

### Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol ■

**Targed blynyddol = 70 Digwyddiadau a gynhaliwyd = 51**

**51** DIGWYDDIADAU gynhaliwyd gyda'r **3257** MYNYCHWYR

Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- SIOE DEITHIOL EID
- ACHUB BYWYDAU A BYWOLIAETH
- MYND I'R AFAEL Â CLOFFNI GWARTHEG

### Astudiaeth Achos
#### Sioe Deithiol EID

Roedd y sesiwn galw heibio a gynhaliwyd ym Marchnad Da Byw Y Trallwng yn llwyddiannus iawn gyda nifer o ffermwyr yn galw heibio i drafod y newidiadau newydd o ran cofnodi defaid. Roedd rhai ffermwyr wedi dod â'u hoffer darllen EID gyda nhw er mwyn i gynrychiolwyr o'r cwmnïau EID eu cynorthwyo i ddeall sut i ddefnyddio'r offer a gweithredu rheolau newydd ar gyfer symud da byw.

Llwyddodd y digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o'r rheolau newydd gan fod nifer o'r ffermwyr yn bresennol heb glywed am y newidiadau. Rhoddodd hefyd gyfle i ffermwyr drafod gyda'r chwmnïau EID pa system fyddai orau iddyn nhw.

### Grwpiau Trafod ■

**126** CYFARFOD gyda **920** O FYNYCHWYR

### Astudiaeth Achos

Bu Robert Fleming, enillydd gwbor AgriScot Ffermwr Bîff Albanaidd y Fwyddyn 2017, yn ymweld â Grŵp Trafod Bîff ar Ynys Môn i drafod sut y mae wedi cynyddu cynhyrchiant fesul hectau bum gwaith, gan leihau costau ar yr un pryd.

Yn ôl Robert, y prif ddangosyddion perfformiad yw:

- Allbwn fesul hectar
- £ o'r dwysfwyd a brynwyd yn ôl Kg o gynnydd pwysau byw
- £ o wrtaith a ddefnyddiwyd yn ôl Kg o bwysau byw a gynhyrchwyd

Pwysleisiodd bwysigrwydd dechrau gyda dadansoddi maetholion pridd y fferm, ac yna gweithredu i sicrhau bod y pridd yn cyrraedd y statws pH gorau. Mae ei system yn seiliedig ar sicrhau'r twf glaswellt gorau posibl gyda mwyafrif y caeau yn cynhyrchu rhwng 13 a 23t/DM/Ha.

Dylid cymryd y camau canlynol i gynyddu cynhyrchiant:

- Mesur pob mewnbwn
- Pwyso a mesur cnydau
- Sicrhau ansawdd y pridd
- Mesur dognau

### Gwefan Cyswllt Ffermio a'r Cyfryngau Cymdeithasol ■

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau tudalen unigryw (Medi – Tachwedd 2018) | 105,093 |
| Cyfartaledd yr amser a dreulir ar y wefan | 00:01:43 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter 30/11/2018 | 4,489 |
| Nifer o hoffwyr ar Facebook 30/11/2018 | 7,538 |


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government


www.llyw.cymru/cyswlltffermio